# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 29 MAI 2019 AM 10:30AM

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol) ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

M. Headington (Rheolwr Mannau Gwyrdd a Gwasanaethau Trafnidiaeth), A. Dallimore (Arweinydd Tîm – Adnewyddu Trefol a Chadwraeth) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), y Cynghorydd P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), y Cynghorydd S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd) a C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET – 15 MAI 2019

PENDERFYNWYD, yn amodol ar gofnodi Datganiadau o Fuddiant ar gyfer y Cynghorwyr C. Cuss, N. George, C. Gordon, B. Jones, S. Morgan a D. Poole fel Ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr Coed Duon ar gyfer cofnodion rhif 2, 4 a 5, nodi bod y frawddeg olaf yng nghofnod rhif 2 a oedd yn dweud, “Gan fod y rhain yn fuddiannau personol a heb fod yn rhagfarnllyd, nid oedd yn ofynnol i Aelodau adael yr ystafell, a gallent gymryd rhan yn y ddadl”, bod tudalen 3, cofnod rhif 4, paragraff 4 yn dweud “gan gyfeirio'n benodol at Waredu Tir ar gyfer Datblygiad Preswyl…”. Mae tudalen 3, cofnod rhif 5 (ADRODDIAD ADOLYGIAD EIDDO 2019) yn cyfeirio at “Is-gadeirydd Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a Llywodraethwr Ysgol Idris Davies 3–18”.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019 fel cofnod cywir.

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

## 4. EGWYDDORION TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL (MEYSYDD CHWARAE)

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ddydd Mawrth 14 Mai 2019, yn ceisio mabwysiadu set o egwyddorion arweiniol mewn perthynas â throsglwyddo meysydd chwarae i sefydliadau chwaraeon.

Nodwyd bod y Cyngor yn derbyn nifer cynyddol o geisiadau gan glybiau chwaraeon i brydlesu cyfleusterau (meysydd chwaraeon a/neu bafiliynau). Hyd yma, yr ethos cyffredinol yw y byddai'r Cyngor yn cefnogi uchelgeisiau clybiau (ar sail ad-hoc). Fodd bynnag, yn niffyg unrhyw egwyddorion arweiniol ac am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, mae hyn yn mynd yn fwyfwy anodd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo, lle bo'n bosibl, i ddarparu cymorth i glybiau i ddod yn fwy cynaliadwy a galluogi eu datblygiad a'u symud ymlaen i gynghreiriau uwch. Mae hyn nid yn unig yn dod â manteision i'r clwb, ei chwaraewyr, chwaraeon yn gyffredinol a'r fwrdeistref sirol, ond mae mabwysiadu'r egwyddorion yn galluogi'r Awdurdod Lleol i ddiogelu asedau.

Amlinellodd yr adroddiad rai egwyddorion arweiniol a fydd o gymorth wrth wneud penderfyniadau a rhoi eglurder i sefydliadau chwaraeon wrth ystyried ceisiadau am drosglwyddo meysydd chwarae a/neu bafiliynau.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a, gan nodi sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd, cafwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y rhwystrau rheoli torfeydd yn 3.1.1 o'r adroddiad, sy'n awgrymu y dylai paneli gael eu gosod i wahardd cŵn o feysydd. Eglurodd y swyddogion fod adroddiad pellach i'w gyflwyno drwy broses y Pwyllgor sy'n cyfeirio at Gŵn ar Feysydd Chwarae; fodd bynnag, mae'r rhwystrau wedi'u cynllunio ar gyfer rheoli torfeydd fel y nodir yng ngofynion y Gynghrair.

Wrth drafod yr Egwyddorion, cytunodd y Cabinet y byddai'r Egwyddorion yn darparu cysondeb yn y broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â darparu amddiffyniad i Swyddogion ac Aelodau yn y broses o wneud penderfyniadau, fel bod y cyhoedd yn deall penderfyniadau'n well.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, ar fabwysiadu'r egwyddorion canlynol:

i) Bod y Cyngor yn rhoi caniatâd, lle mae'n briodol i wneud hynny, i glybiau osod rhwystrau rheoli torfeydd (gyda neu heb baneli mewnlenwi i wahardd cŵn);

ii) Os oes cyfamod rhy gaeth wedi'i osod ar y maes chwarae neu'r adeilad, bydd y Cyngor yn cael ei wahardd rhag ymrwymo i gytundebau prydlesu neu drwyddedu gyda chlybiau;

iii) Bydd y Cyngor ond yn derbyn ceisiadau gan glybiau, lle maent o leiaf ddeunaw mis i ffwrdd o ddechrau mewn strwythur cynghrair newydd, er enghraifft, Cynghrair Cymru ym myd pêl-droed a naill ai Pencampwriaeth neu Uwch Gynghrair Undeb Rygbi Cymru ym myd rygbi. Ynghyd â phob cais, mae'n rhaid cyflwyno achos busnes cryf ynghyd â ffi nad yw'n ad-daladwy o £500 i dalu am gostau cyfreithiol cychwynnol ac amser swyddogion. Yn ogystal, lle bo hynny'n

berthnasol, bydd y clwb yn atebol am gostau hysbysebu fel y nodir yn Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015, a all fod yn fwy na £4,000. I'r perwyl hwn, anogir trafodaethau cyn ymgeisio gyda swyddogion;

iv) Bod y Cyngor yn rhoi statws defnyddiwr dewisol lle mae'n briodol gwneud hynny, i glybiau o'r fath sydd wedi'u cofrestru fel Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol;

v) Bod swyddogion yn adolygu'r broses archebu ac yn parhau i archwilio cyfleoedd datblygu ar feysydd 3G i hwyluso'r clybiau hynny yn y cynghreiriau uwch i fodloni gofynion eu cynghrair;

vi) Bod gan feysydd chwarae a chyfleusterau eraill sydd ar ymddiriedolaeth elusennol wahanol drefniadau llywodraethu a bydd angen iddynt fod yn destun proses gwneud penderfyniadau ar wahân;

vii) Bod y Cyngor yn gyfrifol am brofion a gwaith cynnal a chadw statudol (o fewn adeiladau) a chynnal a chadw tiroedd, a'u had-dalu gan y clwb lle rhoddir cytundebau rheoli;

viii) Bod yr Awdurdod yn parhau i anrhydeddu prydlesi presennol, lle mae'r clybiau yn cydymffurfio'n llawn â thelerau'r brydles;

ix) Bod pob cais yn destun trafodaeth, i dynnu sylw at unrhyw faterion posibl, rhwng swyddogion perthnasol, yr aelodau Cabinet perthnasol ac Aelodau lleol. Yn y cyd-destun hwn, bydd swyddogion yn ymgysylltu â'r aelodau lleol perthnasol ac Aelod y Cabinet ar y cam cynharaf yn y broses ymgeisio ac yn penderfynu ar y dull mwyaf priodol ar gyfer ymgynghori â thrigolion ar y cyd â'r aelod(au) lleol perthnasol. Bydd barn aelodau(au) lleol yn cael ei hystyried yn y broses gwneud penderfyniadau a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Lle mai'r penderfyniad yn y pen draw yw gwrthod unrhyw gais am drosglwyddo asedau, yna caiff y penderfyniad ei gyfleu fel penderfyniad y Cyngor ac ni fydd yn cael ei briodoli i farn unrhyw aelodau unigol;

x) Bod unrhyw eithriad i'r set hon o egwyddorion yn dod gerbron y Cabinet am benderfyniad.

## 5. BWRDD ADFYWIO – CYNIGION PROSIECT

Argymhellodd yr adroddiad yr ail ran o gynlluniau blaenoriaeth ar gyfer Cyllid Datblygu Bwrdd y Prosiect Adfywio i'r Cabinet.

Nodwyd, yn ei gyfarfod ar 30 Mai 2018, fod y Cabinet wedi cytuno i sefydlu Bwrdd Prosiect Adfywio gyda chynrychiolaeth wleidyddol drawsbleidiol o Gynghorwyr ynghyd â swyddogion allweddol. Cefnogir y grŵp hwn gan Banel Asesu Adfywio sy'n cynnwys swyddogion o ystod o feysydd gwasanaeth.

Ers ei gyfarfod cyntaf ar 3 Hydref 2018, mae'r Panel Asesu Adfywio wedi cyfarfod i ystyried y tranche cyntaf o saith prosiect a nodwyd gan y Bwrdd i'w symud ymlaen i'r Cam Asesu. Cymeradwywyd tranche cyntaf y prosiectau hyn (cyfanswm o bedwar) yn y Cabinet ar 13 Chwefror 2019.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gytundeb ar gyfer cymeradwyo'r ail tranche (y tri phrosiect sy'n weddill), a nodwyd gan y Bwrdd Prosiect Adfywio ac a aseswyd gan y Panel Asesu

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi, ers yr adroddiad blaenorol, y bu cynnydd yn y dyraniad cyllideb, gan gynyddu o £300k i gyfanswm o £1.5m. Hefyd, ers ysgrifennu'r adroddiad, mae cais Parcio a Theithio Ystrad Mynach am Gyllid Cludiant Lleol wedi bod yn aflwyddiannus. Mae swyddogion wedi trefnu cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i ganfod y rhesymau dros wrthod cyllid ond o ganlyniad, gofynnwyd i'r Cabinet nodi y gallai hyn arwain at y prosiect yn dod yn ôl i'r Bwrdd Prosiect Adfywio ar gyfer arian ychwanegol er mwyn cyflawni'r prosiect.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnwyd i Swyddogion ddiweddaru adran Rhagdybiaethau'r adroddiad i amlygu bod y costau yn seiliedig ar brisiau ac amcangyfrifon 2019.

Cynhaliwyd trafodaethau am y Cynllun yng Nghoedwig Cwmcarn a dymunodd yr Aelodau nodi bod Coedwig Cwmcarn wedi'i lleoli yng Nghwmcarn, ac nid yn Rhisga. Cytunodd y swyddogion i ddiwygio'r adroddiad yn unol â hynny.

Trafododd y Cabinet y Cynllun yn Ystrad Mynach mewn perthynas â pharcio ceir a gofynnodd am ragor o wybodaeth am y broses ymgynghori a'r gwrthwynebiadau. Eglurodd y swyddogion y cynhaliwyd ymgynghoriad gydag Aelodau Wardiau Lleol fel rhan o'r broses adrodd hon, fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth hefyd fel rhan o Uwchgynllun Ystrad Mynach, y mae'r cynllun yn rhan annatod ohono. Codwyd gwrthwynebiadau mewn perthynas â mynediad i'r cyfleuster Parcio a Theithio a defnydd o Feysydd Chwarae Ysgolion; fodd bynnag, rhoddwyd sylw i hyn fel rhan o'r ymgynghoriad a'r Uwchgynllun.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

i) cymeradwyo cynnydd Prosiectau Tranche 2;

ii) cytuno y dylid dyrannu £75,000 o'r Gronfa Datblygu Prosiect sy'n weddill o £1.21m y Bwrdd Prosiect Adfywio i gynlluniau blaenoriaeth tranche 2 a nodwyd gan y Bwrdd Prosiect Adfywio.

Terfynwyd y cyfarfod am 10:47am

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019.

______________________

CADEIRYDD